

# E-scooters

## Useful Information



**Electric scooters are growing in popularity but there is a lot of confusion around where they can be used.**

There are also a number of UK government trials under way to pilot the use of rental e-scooters in some towns and cities. We wanted to set out the info you need to know about e-scooters.

### Can I ride my e-scooter on the road?

A privately owned e-scooter can only legally be used on private land and with the permission of the land owner. In legislation, an e-scooter is classed as a powered transporter and are treated as a motor vehicle and so fall under the Road Traffic Act.

This means that they are subject to all the same legal requirements as motor vehicles; MOT, tax, licensing, insurance and specific construction regulations. As e-scooters can't currently meet these requirements, riding a privately-owned e-scooter on a public road, pavement or other public area is a road traffic offence.

### What happens if I ride my e-scooter in a public place?

Anyone who uses a powered transporter on a public road, pavement or other prohibited space is committing a criminal offence and can be prosecuted. Some of the potential offences committed can include driving without a valid licence and driving without insurance.

The penalty for driving without insurance is a fine of £300 and up to 6 points on your driving licence if you have one. Your e-scooter may also be seized under section 165 of the Road Traffic Act for being used without insurance. If you are using an e-scooter in public in an anti-social manner, you can also risk the e-scooter being seized under section 59 of the Police Reform Act.

### Where are the e-scooter trial areas?

More info about this scheme can be found here: <https://www.gov.uk/guidance/e-scooter-trials-guidance-for-users>



SOUTH WALES  
**POLICE**  
**HEDDLU**  
DE CYMRU

Cymru/Wales

**CrimeStoppers.**

**0800 555 111**

100% diennw. Bob tro.  
100% anonymous. Always.



# KeepingSouthWalesSafe

# CadwDeCymruYnDdiogel

# E-sgwteri

## Gwybodaeth Ddefnyddiol



Mae sgwteri electronig yn dod yn fwy poblogaidd ond mae llawer o ddryswch ynglŷn â ble y gellir eu defnyddio.

Mae nifer o dreialon Llywodraeth y DU hefyd yn mynd rhagddynt i dreialu rhentu e-sgwteri mewn rhai trefi a dinasoedd. Roeddem am nodi'r wybodaeth y mae angen i chi ei gwybod am e-sgwteri.

### A allaf ddefnyddio fy e-sgwter ar y ffordd?

Dim ond ar dir preifat y gellir defnyddio e-sgwter sy'n eiddo preifat, a hynny gyda chaniatâd perchennog y tir. Mewn deddfwriaeth, ystyrir e-sgwteri yn gludwyr modur a chânt eu trin fel cerbydau modur, ac felly maent yn dod o dan y Ddeddf Traffig Ffyrdd.

Mae hyn yn golygu eu bod yn gorfod bodloni'r un gofynion cyfreithiol â cherbydau modur; MOT, treth, trwyddedu, yswiriant a rheoliadau adeiladu penodol. Gan na all e-sgwteri fodloni'r gofynion hyn ar hyn o bryd, mae defnyddio e-sgwteri sy'n eiddo preifat ar ffordd neu balmant cyhoeddus, neu fan cyhoeddus arall yn drosedd traffig ffordd.

### Beth fydd yn digwydd os byddaf yn defnyddio fy e-sgwter mewn man cyhoeddus?

Bydd y sawl sy'n defnyddio cludwr modur ar ffordd neu balmant cyhoeddus, neu ardal waharddedig arall yn cyflawni trosedd a gellir eu herlyn. Gall rhai o'r troseddau posibl a gyflawnir gynnwys gyrru heb drwydded ddilys a gyrru heb yswiriant.

Y gosb am yrru heb yswiriant yw dirwy o £300 a hyd at 6 phwynt ar eich trwydded yrru, os bydd un gennych. Hefyd, gellir atafaelu eich e-sgwter o dan adran I65 o'r Ddeddf Traffig Ffyrdd am gael ei ddefnyddio heb yswiriant. Os byddwch yn defnyddio e-sgwter yn gyhoeddus mewn ffordd wrthgymdeithasol, gallwch hefyd wynebu'r risg y caiff yr e-sgwter ei atafaelu o dan adran 59 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu.

### Ym mha ardaloedd y cynhelir y treialon e-sgwteri?

Mae rhagor o wybodaeth am y cynllun hwn ar gael yma: <https://www.gov.uk/guidance/e-scooter-trials-guidance-for-users>



SOUTH WALES  
**POLICE**  
**HEDDLU**  
DE CYMRU

Cymru/Wales

**CrimeStoppers.**

**0800 555 111**

100% diennu. Bob tro.  
100% anonymous. Always.



# KeepingSouthWalesSafe

# CadwDeCymruYnDdiogel